sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Adolygiad o Asesiad y BBC o sylwedd y Newid Arfaethedig i'r iPlayer

Dyddiad: 2 Tachwedd 2018

# Crynodeb

## Cefndir

1.1 **Mae diwydiant teledu y Deyrnas Unedig wedi gweld newid cystadleuol sylweddol dros y degawd diwethaf, wedi ei ysgogi gan newid yn arferion a dewisiadau cynulleidfaoedd, a chynnydd cwmnïau rhyngrwyd byd-eang blaenllaw**. Mae cynulleidfaoedd, a gwylwyr iau yn arbennig, yn gwylio llai o deledu byw sy'n dilyn amserlen, ac yn lle hynny maen nhw'n edrych fwyfwy ar gynnwys ar alw ac ar-lein ar ddyfeisiau gwahanol. Mae chwaraewyr ar-lein byd-eang fel Netflix ac Amazon yn buddsoddi mewn rhaglenni gwreiddiol o safon uchel ar gyllidebau uchel, gydag apêl eang i wylwyr y Deyrnas Unedig. Gan hynny, mae darlledwyr y Deyrnas Unedig yn cystadlu am wylwyr mewn tirwedd sy'n gynyddol ddarniog.

1.2 **Yn gynharach eleni, nododd Ofcom yr angen i ddarlledwyr y Deyrnas Unedig ymateb i'r heriau hyn ac addasu i'r oes ddigidol.**[1] Fe wnaethon ni ddweud y dylai darlledwyr y Deyrnas Unedig ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddosbarthu rhaglenni; dal sylw cynulleidfaoedd iau; a gwneud cynnwys o'r radd flaenaf sy'n adrodd storïau'r Deyrnas Unedig. Fe wnaethom hefyd nodi ein disgwyliad y byddai meithrin partneriaethau newydd yn helpu chwaraewyr y Deyrnas Unedig i ymateb i'r gystadleuaeth fyd-eang gynyddol hon. Bu symudiad i'r cyfeiriad hwn yn barod; er enghraifft, gyda BBC Studios ac ITV[2] yn lansio Britbox yn yr Unol Daleithiau a Chanada, a bargen cynnwys traws-lwyfan Sky a Channel 4.[3]

1.3 **Yn ogystal, mae darlledwyr y Deyrnas Unedig wedi parhau â'u buddsoddiad parhaus mewn cynnwys newydd, ac arbrofi gyda gwahanol lwyfannau a modelau cyflwyno ar-lein, er mwyn cadw i fyny â disgwyliadau'r gynulleidfa**.[4] Rydym wedi ein calonogi bod y BBC hefyd yn ceisio esblygu ac addasu ei wasanaethau fel y mae eraill wedi bod yn ei wneud. Yn y cyd-destun hwn, mae wedi bod yn arbrofi gyda ffyrdd o gyflwyno cynnwys ar alw ar BBC iPlayer - er enghraifft, gwneud y cynnwys ar gael am gyfnodau gwahanol. Y llynedd, trefnodd bod 20 set bocs ar gael am gyfnod estynedig, ac ychwanegodd fwy na 300 o raglenni am fis dros gyfnod y Nadolig yn 2017. Amlinellwyd "ail-ddyfeisio" iPlayer y BBC fel blaenoriaeth strategol yng Nghynllun Blynyddol y BBC 2018/19, i'w alluogi i

---

[1] Ofcom, *Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn yr oes ddigidol: Cefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y degawd nesaf a thu hwnt* https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0015/111930/Darlledu-gwasanaeth-cyhoeddus-yn-yr-oes-ddigidol.pdf

[2] Cyfeirir at ITV plc fel ITV drwy gydol y ddogfen hon

[3] https://www.itvplc.com/~/media/Files/I/ITV-PLC/Press%20Releases/BritBox%20Canada%20Press%20Release%20-%20141217.pdf a https://www.channel4.com/info/press/news/sky-c4-to-bring-formula-1-tin-star-no-offence-to-more-viewers

[4] Er enghraifft, cyhoeddodd ITV ccc yn ddiweddar mai elfen allweddol o'i strategaeth yw *buddsoddi yn Hub (ITV) i'w wneud yn gyrchfan i wylwyr yn hytrach na dim ond gwasanaeth dal i fyny:* https://www.itvplc.com/~/media/Files/I/ITV-PLC/documents/reports-and-results/interim-results-statement-2018-v1.pdf; Adroddwyd bod Channel Five wedi llofnodi partneriaethau cynnwys newydd ar gyfer ei wasanaeth ffrydio My5: https://www.broadbandtvnews.com/2018/07/04/channel-5-signs-new-streaming-deals/

gystadlu â datblygiadau gwasanaethau eraill ar fideo ar alw.[5] Yn fwy diweddar, mae wedi nodi y dylai cyflwyno ei strategaeth iPlayer fod yn fwy uchelgeisiol[6] ac y bydd yn cyflymu datblygiad iPlayer yn 2019 ac yn buddsoddi rhagor ynddo.[7]

1.4 **Rydym yn cefnogi uchelgais y BBC i esblygu ac adnewyddu ei gynnwys a'i wasanaethau i sicrhau bod ganddo apêl eang a pherthnasedd o hyd ar gyfer cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig gwylwyr a gwrandawyr iau**.[8] Rydym yn deall fod yn rhaid i'r BBC geisio addasu'n barhaus i gyflawni ei genhadaeth a'i bwrpasau cyhoeddus yn llwyddiannus drwy gydol cyfnod y Siarter 11-mlynedd bresennol.[9]

1.5 **Ond rydym hefyd yn ymwybodol, pan fydd y BBC yn dymuno gwneud newidiadau, y gallai hyn effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth yn y farchnad gyfryngau ehangach yn y Deyrnas Unedig.** Er bod y BBC yn wynebu cystadleuaeth gynyddol gan rai fel Netflix ac Amazon Prime, yn y Deyrnas Unedig mae'n parhau i fod yn sefydliad mawr gyda mecanwaith cyllido unigryw. Mae hyn yn caniatáu iddo gynnig cynnwys i gynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig, yn rhad ac am ddim a heb hysbysebion, mewn ffordd na all eraill ei wneud. Bydd y newidiadau a ddaw yn ei sgil yn cael effeithiau cadarnhaol: gall y BBC wella gwerth i'r cyhoedd a gall annog cystadleuaeth drwy gynnig rhagor o ddewis, ysgogi galw, neu hyrwyddo arloesi, sy'n golygu bod cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig ar eu hennill. Fodd bynnag, gall rhai o'r newidiadau y mae'r BBC yn eu cynnig hefyd niweidio cystadleuaeth a darlledwyr y Deyrnas Unedig; er enghraifft, drwy gymryd buddsoddiadau mewn cynnwys a gwasanaethau'r Deyrnas Unedig oddi ar gwmnïau eraill, a allai leihau dewis i wylwyr a gwrandawyr yn y pen draw.

1.6 **Mae Siarter a Chytundeb Fframwaith y BBC, a bennwyd gan y Senedd, yn ystyried y ffactorau hyn.** Maen nhw'n ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd y BBC ystyried effaith y BBC ar y farchnad ehangach ac i ddechrau ystyried effeithiau newidiadau 'sylweddol' ar gystadleuaeth y Deyrnas Unedig (ac yna Ofcom i wneud hynny hefyd) - hynny yw, newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y BBC a allai gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'r broses hon wedi ei chynllunio i sicrhau bod unrhyw newid sylweddol i weithgareddau teledu, radio a gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn destun craffu trylwyr a phriodol, mewn ffordd dryloyw ac agored, gan alluogi pawb i gael dweud eu dweud ar y ffordd orau i'r BBC ddatblygu.

---

[5] Cynllun Blynyddol y BBC 2018/19 Tudalen 5: *Adfywio'r ffordd rydym yn darparu ein cynnwys.* https://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/bbc_annual_plan_2018.pdf

[6] Cofnodion Bwrdd y BBC Mehefin 2018 9: Cynllun Gweithredol http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement/ebmins/ebmins_jun18.pdf

[7] Mewn araith i'r RTS yn ddiweddar (18 Medi 2018) dywedodd Tony Hall *'Mae angen i ni symud yn gyflymach gyda'n cynlluniau ar gyfer iPlayer, ar gyfer BBC Sounds ac i gynulleidfaoedd ifanc. Rwyf wedi herio'r sefydliad i ddod o hyd i £100 miliwn y flwyddyn o'n cyllidebau presennol i fuddsoddi yn y blaenoriaethau hyn o fis Ebrill nesaf ymlaen.'* https://www.bbc.co.uk/mediacentre/speeches/2018/tony-hall-rts

[8] Cynllun Blynyddol y BBC 2018/19 Tudalen 6: *Adfywio'r ffordd rydym yn darparu ein cynnwys.* https://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/bbc_annual_plan_2018.pdf

[9] Mae Siarter gyfredol y BBC yn para tan 31 Rhagfyr 2027 https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement

## Newidiadau arfaethedig y BBC i’r iPlayer

1.7 **Mae'r BBC wedi cynnig nifer o newidiadau i iPlayer y BBC i'w gweithredu yn 2018/19**. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Nifer sylweddol o Setiau Bocs ychwanegol, a fyddai ar gael ar yr iPlayer am gyfnod estynedig
- newidiadau i nodweddion, fel gwelliannau i brofiad defnyddwyr ac o ran a personoli; a
- rhagor o wariant ar farchnata.

1.8 **Mae'r BBC yn amcangyfrif y gallai ei gynigion gynyddu cyfran iPlayer o edrych ar fideo ar alw**. O ganlyniad i'w gynigion, mae'r BBC yn rhagweld y gallai cyfanswm munudau gwylio iPlayer gynyddu yn 2018/19 o'i gymharu â lefelau 2017/18.

1.9 **O dan delerau'r Cytundeb Fframwaith, mae’n rhaid i Fwrdd y BBC asesu yn gyntaf a yw unrhyw newid arfaethedig i'w wasanaeth cyhoeddus yn 'sylweddol'**. Os yw’n penderfynu bod newid yn ‘sylweddol’, mae’n rhaid i’r BBC gynnal asesiad pellach, a elwir yn ‘brawf lles y cyhoedd’ a adolygir gan Fwrdd y BBC. Mae’r Prawf hwn yn rhoi cyfle i'r BBC ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd dryloyw ar eu cynigion, drwy ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'n cymell y BBC i ystyried sut bydd y newidiadau arfaethedig yn cyfrannu at Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC, ac yn dangos ei fod wedi cymryd camau i leihau unrhyw effaith andwyol posibl diangen ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae angen iddo allu dangos bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith o'r fath.

1.10 **Daeth Bwrdd y BBC i'r casgliad nad oedd y newidiadau arfaethedig i iPlayer yn golygu newid sylweddol, ac felly nad oedd yn gwarantu Prawf lles y cyhoedd**. Cyflwynodd y BBC ei asesiad perthnasol ar ei gynigion i Ofcom eu hystyried ar 8 Mehefin 2018.

## Asesiad Ofcom

1.11 **Ar ôl asesu cynlluniau'r BBC yn ofalus, mae Ofcom yn anghytuno â chasgliadau Bwrdd y BBC**. Rydym o'r farn bod y newidiadau arfaethedig i iPlayer yn cynrychioli newid sylweddol. Wrth gyrraedd ein penderfyniad, rydym wedi ystyried y ffactorau perthnasol a nodir yng nghanllawiau Ofcom ar newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.[10]

1.12 **Dangosodd dadansoddiad y BBC ei hun y gallai ei gynigion gynyddu'n sylweddol ei gyfran o ganrannau edrych ar fideo ar alw**. Ar ôl adolygu ffigurau'r BBC, credwn, pe bai ei gynigion yn cael eu gweithredu'n llawn, ei bod hi'n bosibl y bydd yr effaith ar gyfran o wylio fideo ar alw tuag at ben uchaf yr amcan rhagamcanol. Er gwaethaf y ffaith bod y ffigyrau a amcanestynnir yn anochel o ansicr, mae ein hasesiad yn dibynnu ar yr wybodaeth mae'r BBC wedi ei darparu i ni.

---

[10] *Asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC: canllawiau a gweithdrefnau Ofcom:* https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0028/99415/bbc-public-service-activities-proposed.pdf

1.13 **Rydym o'r farn bod perygl y gallai'r cynnydd hwn mewn gwylio BBC iPlayer ddod ar draul ei gystadleuwyr - yn enwedig gwasanaethau fideo ar alw eraill y Deyrnas Unedig, fel ITV Hub, All 4, My5 a Now TV**. O ganlyniad i'r ffaith y byddai'r BBC yn cynnig symiau sylweddol o gynnwys ychwanegol, yn rhad ac am ddim a heb hysbysebion, mae'n bosibl y bydd gwasanaethau masnachol ar fideo ar alw - yn fodelau sy'n cael eu cyllido gan hysbysebwyr neu drwy danysgrifio - yn cael eu gwasgu ac y byddan nhw'n ei chael hi'n anoddach gwneud arian o'u cynnwys eu hunain. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wir am wasanaethau fel y cynigion tanysgrifio newydd a gyhoeddwyd gan ITV ar gyfer ei wasanaeth Hub.[11]

1.14 **Gallai hyn niweidio cystadleuaeth drwy leihau cymhellion y cystadleuwyr i fuddsoddi yn eu gwasanaethau a'u datblygu.** Er enghraifft, mae'n bosibl na fyddai cystadleuwyr yn gallu ychwanegu cymaint o gynnwys unigryw, neu wella nodweddion ar eu platfformau ar-alw eu hunain - gan arwain at farchnad fideo ar alw llai amrywiol a llai bywiog. Yn y sefyllfa honno, gallai cynulleidfaoedd fod ar eu colled.

## Ein cyfarwyddydau

1.15 **O gofio am ein canfyddiad ynghylch sylwedd, rydym yn cyfarwyddo'r BBC i gynnal prawf lles y cyhoedd.** Bydd y broses agored a thryloyw hon yn sicrhau y bydd y BBC yn ystyried yn llawn unrhyw bryder cyfreithlon ynghylch cystadleuaeth ac effeithiau posibl ar y farchnad, ochr yn ochr â buddiannau gwerth cyhoeddus. Rydym yn deall bod y BBC yn ystyried sut dylai'r iPlayer ddatblygu ymhellach ar ôl 2018/19. Gan hynny, rydym yn mynnu bod y BBC hefyd yn ystyried a ddylid ymgorffori'r cynlluniau hynny i'r prawf lles erbyn 31 Rhagfyr 2018. Drwy ymgymryd â phrawf lles ar ei gynlluniau tymor hirach, mae posibilrwydd i'r BBC leihau'r risg o ymyrraeth yn y dyfodol gan Ofcom.

1.16 ***Nid* yw ein canfyddiadau a'n cyfarwyddyd i ymgymryd â phrawf modd yn golygu y bydd y BBC yn cael ei atal yn y pen draw rhag gwneud newidiadau i'r iPlayer.** Maen nhw'n golygu, wrth ddatblygu ei gynlluniau, bod angen i'r BBC ystyried yn fwy tryloyw y manteision gwerth cyhoeddus a'r effaith debygol y gallai hyn ei chael ar gystadleuaeth.[12] Rydym o'r farn bod manteision sylweddol ynghlwm wrth ymgysylltu'n agored â rhanddeiliaid y Deyrnas Unedig, i ddarparu mewnwelediadau a fyddai'n galluogi'r BBC i addasu ei gynigion, pe bai angen, tra ei fod yn ystyried ei strategaeth yn y tymor hirach.

[11] https://www.itvplc.com/~/media/Files/I/ITV-PLC/documents/reports-and-results/interim-results-statement-2018-v1.pdf
Tudalen 5

[12] Mae'n rhaid i'r BBC fodloni ei hun fod y newid arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus; (ii) ei fod wedi cymryd camau rhesymol i ddileu effeithiau andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol nad ydyn nhw'n angenrheidiol at y diben hwnnw; a (iii) bod y gwerth cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r newid yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol sy'n weddill. Cymal 8 o Gytundeb y BBC: https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement

## Mesurau dros dro

1.17 **O dan amgylchiadau arferol, o ystyried ein canfyddiad ynghylch y natur sylweddol, byddem yn disgwyl rhoi cyfarwyddyd i'r BBC roi'r gorau i wneud newidiadau i'r iPlayer tan ar ôl cwblhau prawf lles y cyhoedd, a hynny dim ond ar ôl cael cymeradwyaeth derfynol gan Ofcom**.

1.18 **Fodd bynnag, yn yr achos hwn, credwn ei bod yn briodol caniatáu i'r BBC wneud newidiadau cyfyngedig i'r iPlayer**. Rydym yn deall yr angen i'r iPlayer barhau i ddatblygu, ac i'r BBC gadw cynulleidfaoedd. Rydym hefyd o'r farn ei bod yn briodol caniatáu i'r BBC ddefnyddio'r hawliau rhaglenni sydd ganddo'n barod, er mwyn galluogi talwyr ffi'r drwydded i elwa ar fuddsoddiad y BBC. Gan hynny, bydd ein cyfarwyddydau drafft yn caniatáu i'r BBC fwrw ymlaen â rhannau o'i gynigion yn 2018/19. Byddai'r BBC yn gallu:

- cadw unrhyw gyfres sydd eisoes wedi ei hychwanegu at yr iPlayer ers dechrau 2018/19 o dan ei gynigion; ac
- ychwanegu at yr iPlayer unrhyw gyfres y cafodd hawliau ar ei chyfer cyn dyddiad y penderfyniad hwn, a threfnu ei bod ar gael ar yr iPlayer nes bydd yr hawliau hynny'n dod i ben.

1.19 **Am y blynyddoedd dilynol, ac yn unol â'i gynigion ar gyfer nifer o gyfresi, gallai'r BBC ddarparu nifer cyfyngedig o gyfresi Set Bocs newydd neu ddiweddaraf, a nifer cyfyngedig o gyfresi archif.** Fodd bynnag, dim ond am gyfnod o hyd at dri mis o ddiwrnod darlledu olaf cyfres newydd neu gyfres ddiweddaraf, a hyd at dri mis ar gyfer cyfres archif, y caniateir i'r rhain fod ar gael. Rydym o'r farn y bydd caniatáu i'r BBC ddarparu rhywfaint o gynnwys Setiau Bocs ychwanegol am gyfnod hwy na'r ffenestr safonol ar gyfer dal i fyny, sef 30 diwrnod,[13] yn sicrhau cydbwysedd rhwng galluogi cynulleidfaoedd i elwa ar gael rhagor o gynnwys ar gael a lleihau'r risg sy'n codi o unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth.

1.20 **Rydym hefyd yn bwriadu monitro perfformiad BBC iPlayer i benderfynu a yw'r mesurau dros dro'n parhau'n briodol, ynteu a oes angen newidiadau**. Gan hynny, byddwn yn parhau i adolygu cynnwys y mesurau hyn, ac yn mynnu bod y BBC yn rhoi gwybodaeth fisol i ni am y cyfresi sydd ar gael ar yr iPlayer.

1.21 Rydyn ni'n rhoi cyfle i'r BBC godi unrhyw bryder ymarferol ynglŷn â'n cyfarwyddiadau dros dro, ac mae'n rhaid iddo gyflwyno'r pryderon hynny i Ofcom erbyn 16 Tachwedd 2018.

[13] Rydym yn nodi bod yr iPlayer fel rheol yn darparu ffenestr ddal fyny safonol o 30 diwrnod ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni (ac eithrio cynnwys BBC Three a rhywfaint o gynnwys "O'r Archif").